

## Croesi'r ffin: wynebu angau law yn llaw

*Croesi'r ffin* yw teitl cyfrol ddiweddaraf Prydwen Elfed-Owens, sef casgliad o ysgrifau a phrofiadau wrth wynebu colled a galar. Llwyddodd Prydwen i berswadio dros 40 o gyfranwyr i rannu o'u profiadau wrth ddelio â marwolaeth, a bydd darllen y rhain yn siŵr o fod o help i lawer.

Dydd lau, 17 Medi, braf oedd gweld llawr Theatr Twm o'r Nant yn Ninbych yn gyfforddus lawn wrth groesawu nifer sydd wedi cyfrannu at y gyfrol a chynulleidfia ehangach ar gyfer cyfarfod lansio. Wedi i Prydwen dderbyn copi drwy law Cyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair, Aled Davies, aeth ymlaen i esbonio pwrpas y llyfr, gan wahodd nifer o gyfranwyr ymlaen i rannu eu profiadau. Darllenwyd nifer o gerddi hefyd gan reolwraig y theatr, sef Gaynor Morgan Rees. Cafwyd cyfle hefyd i ganu ambell emyn, a diolch i Robert Parry a Maryll Rees am gyfeilio ac i Aled Lewis Evans am ei ddarlleniadau.

Meddai'r awdur:

Er y teitl, rhaid pwysleisio nad cyfrol am farwolaeth yw hon, ond cyfrol sy'n canolbwyntio ar wynebu marwolaeth, i'n galluogi i fyw ein bywydau i'r eithaf. Fy amcan wrth lunio'r gyfrol oedd rhannu profiadau er mwyn ennyn trafodaeth ac estyn allan i helpu eraill. Mae pob cyfrol yn rhyw fath o lyfr ryseitiau! Mae hynny'n fwriadol er mwyn cynnig syniadau i alluogi'r darllenwyr i fesur agweddau o'n bywydau ein hunain yn eu herbyn a holi a ydynt yn gweithio. Nid da lle gellir gwell! Gobeithio, felly, y bydd y gyfrol hon yn ennyn myfyrdod a thrafodaeth yn y cartref, y dafarn, y seiat, y gymdeithas, yr Ysgol Sul, y clwb darllen, Caffi Angau, ac yn yr ysgol uwchradd. Ychydig yn aml a wna lawer!

Trefnwyd y gyfrol yn bum rhan, gydag is-deitlau sy'n deillio o'r broses o baratoi i groesi'r ffin:

**Rhan 1: Sylweddoli:** fod y corff / meddwl yn datgymalu


**Rhan 2: Darparu:** i'r gragen ddaearol ddarfnod mewn hedd

**Rhan 3: Ffarwelio:** hybu'r enaid i groesi'r ffin mewn tangnefedd

**Rhan 4: Cofio:** 'mewn angof ni chânt fod'

**Rhan 5: Gyda Thi:** 'wrth fyw, wrth farw, gyda Thi'.

Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair; pris £11.99, ac mae bellach ar gael o'ch siop Gymraeg leol.



### EGLWYS GYMRAEG JEWIN

Cynhelir gwasanaeth croeso i fyfyrwyr ddydd Sul, 11 Hydref am 10:45 o'r gloch.

**Lleoliad:** Eglwys Gymraeg Jewin, 70 Fann Street, Llundain, EC1Y 0SA.

**Gorsafod Agosaf:** Barbican, Moorgate, neu Farringdon.

**Iaith:** Dwyieithog (Cymraeg a Saesneg).

*Bydd paned a lluniaeth yn dilyn y gwasanaeth.*

*Croeso cynnes i bawb!*

# Bwrlwm Bro gan Carwyn Siddall

Prynhawn Sul, 13 Medi, cynhaliwyd Bwrlwm Bro Gofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch. Mae'r achlysur hwn wedi bod yn ddigwyddiad blynyddol ers rhai blynyddoedd i nodi dechrau tymor newydd, gyda'r arlwy yn cynnwys gweithgareddau i'r plant, yr ieuencid a'r oedolion. Y tro hwn, Eglwys Crist oedd cartref y cyfan, sef cartref cynulleidfa Annibynwyr y Bala, a hyfryd oedd gweld yr eglwys yn gyfforddus lawn ar gyfer y digwyddiad. Ein gwestai eleni oedd y gwyddonydd Dr Hefin Jones, sy'n Uwch-ddarlithydd yn Adran Organebau ac Amgylchedd Ysgol y Biowyddorau ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn ogystal â bod yn wyddonydd uchel iawn ei barch, mae'n aelod yn eglwys yr Annibynwyr, Minny Street, Caerdydd, ac yn weithgar iawn gydag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Yn sicr, braint inni oedd ei groesawu atom. Yn dilyn defosiwn dan arweiniad y Gweinidog, gwahoddwyd pawb i fynd i'r sesiynau gwahanol. Yn y sesiwn gyntaf, cafodd y plant cynradd helpa drysor a gweithgareddau wedi eu paratoi gan Casi, Mari, Swyn, Beca a Gweno. I'r ieuencid, cafwyd helpa drysor o amgylch y dref dan arweiniad Dilys Elis Jones.

Tybed beth yw gwir ystyr y gair 'trysor'? Beth yw ein trysor ni? Panel *Hawl i Holi* oedd y ddarpariaeth i'r oedolion, gyda Rhodri Jones yn holi'r pedwar ar y panel, sef Hefin Jones, Cynon Tomos, Cari Sioux Jones a Lowri Rees Roberts.

Wedi hynny, cafwyd yr ail gyfres o sesiynau. I'r cynradd, cafwyd gweithdy Lego ar thema Dameg yr Heuwr. Sesiwn 'Holi'r Gwyddonydd' gafwyd i'r ieuencid, a hynny yng nghwmni Hefin Jones, ac i'r oedolion, cafwyd cyfle i wrando ar Ann Williams, Dyfir Gwent, Nia Jones-Evans a Lis Puw yn darllen eu hoff emyn, ac



egluro'u rheswm dros ddewis yr emyn arbennig yna. I gloi'r Bwrlwm Bro, cafwyd oedfa deulu i bawb, gyda Hefin Jones yn arwain y myfyrdod yn seiliedig ar Ddameg yr Heuwr. Band yr Ofalaeth, y Jammy Dodgers, oedd yn cyfeilio, sef Siwan Davies, Heledd Jones, Tomi, Awel, Tegid, Malen, Mabon, Emrys, Miriam, Meredydd a Mabli. Hyfryd, ar ôl yr oedfa, oedd cael mwynhau paned, *pizza* a chacen yng nghwmni ein gilydd. Diolch i bawb ddaeth i ymuno â ni, ac i bawb fu'n cynorthwyo mewn unrhyw ffordd.



## Un cam bach ...



Yn dilyn y newyddion erchyll am effaith y llifogydd dinistriol yn Nepal, penderfynodd y Parchgn Siân Elin a Beti-Wyn (ar anogaeth Siân Elin!) wneud taith gerdded er mwyn tynnu sylw at Apêl Cymorth Cristnogol i Nepal.

Felly, ar brynhawn braf o Fedi, cychwynodd y ddwy ar eu taith 10k o amgylch Cronfa Ddŵr Llys-y-frân, Sir Benfro. Roedd lefel y dŵr yn isel o ganlyniad i'r holl dywydd sych ac wyneb y dŵr yn llonydd wrth i'r ddwy fwynhau cyfle i gerdded, myfyrio ac ystyried, gan oedi ar eu taith yn Eglwys Sant Meilyr ac wrth gofeb W. Penfro Rowlands, awdur yr emyn-dôn Blaenwern.

Yn llonyddwch byd natur a chyda chân yr adar yn eu swyno ar eu taith, ni ellid peidio â meddwl pa mor wahanol yr oedd hi ar bobol Nepal yn dilyn y llifogydd.

Rhwng arian nawdd a chasgliadau arbennig yn y ddwy ofalaeth sydd dan eu gofal – Gofalaeth Bro Cemaes Dyffryn Teifi a Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin, llwyddwyd i godi dros £1,600 i'r apêl. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogi, a diolch arbennig i aelodau'r ddwy ofalaeth am eu haelioni.

Gweddïwn y bydd i drigolion Nepal brofi nerth a dod o hyd i obaith a heddwch.

# Dathlu dwy flynedd Craig: efo'n gilydd, i bawb

gan Jos Edwards

Y mis Medi yma mae Lydia a minnau'n cofio'i bod hi'n bum mlynedd ers inni symud 'nôl i'r gogledd. Mae'n anhygoel edrych yn ôl a gweld yr oll mae Duw wedi'i wneud. Dim ond teulu o dri oeddem ni bryd hynny; bellach, mae hwnnw wedi tyfu i fod yn bump! Dim ond breuddwyd oedd gennym ni, ond bellach mae'r freuddwyd wedi dod yn realiti. Ac yn wir, mae Duw wedi 'gwneud llawer iawn mwy na dim y bydden ni'n mentro gofyn amdano na hyd yn oed yn gallu ei ddychmygu!' (Effesiaid 3:20)

Yn ogystal â chofio hyn, rydym wedi bod yn dathlu'n ddiweddar, dathlu dwy foment arwyddocaol iawn ar y daith yma. 'Nôl ym mis Mehefin fe wnaethon ni ddathlu dwy flynedd ers lansio Capel Craig. Fis yn ddiweddarach cawsom wasanaeth bedydd i'w gofio, wrth i ni fedyddio cwpwl priod a'u plant, yn ogystal â pherson ifanc arall o'r gymuned, yn Llyn Bach ger yr argae yn Nôlrhedyn, gyda mynyddoedd godidog y Moelwyn yn gefndir.

Nid yw'r daith wedi bod heb ei heriau. A phan dwi'n rhannu â chapeli eraill am y gwaith, rwy'n fwriadol iawn yn trio dangos yr ochr yma sydd dipyn llai rhamantus – o lanhaus sos coch oddi ar waliau, i dynnu'n gwallt allan pan dorrodd braich soffâ newydd yn CIC, i'r ofn o osod pethau yn eu lle ar fore Sul tywyll, oer, gaeafol, heb syniad a fydd unrhyw un am ddod i ymuno â ni.

Oes wir, mae yna dyddiau tywyll a chyfnodau pan mae'r ffidil bron â bod yn y to. Ond hefyd mae yna gymaint o lawenydd i'w gael. Brwydrau a bendithion – i gyd yn un: dyna sut y byddwn i'n disgrifio'r pum mlynedd a'r ddwy flynedd ddiwethaf.

Ond fy ngobaith mawr, a'r hyn sydd yn fy nghadw ar y cae yn lle gwyllo o'r gynulleidfa, yw fod Iesu gyda ni bob amser, hyd ddiwedd y byd.

Felly, ga' i rannu tri pheth sydd wedi llonni fy nghalon am Gapel Craig?

## 1. Rydym yn gwneud hyn efo'n gilydd

### Y cyntaf yw ein bod ni'n gwneud hyn efo'n gilydd.

Rydym bellach wedi tyfu i fod yn deulu o oddeutu 50 ar y Sul — rhyw 20 o blant a 30 o oedolion! Mae rhai o'r rhain wedi bod yn dod bob Sul ers y dechrau; eraill wedi ymuno ar wahanol adegau ar y daith. Ond os dwi wedi dysgu unrhyw beth ar y daith yma, nid niiferoedd yw'r hyn y dylem ymfalchïo ynddo, ond gweld ôl gwaith Duw ym mywyd pob unigolyn.

Rwy'n dal i ryfeddu bob Sul – drwy'r drwg a'r da, drwy foreau gwlyb, tywyll, oer Blaenau a thrwy'r anhwylustod weithiau o ddeffro a chael pawb allan o'r tŷ erbyn 10-ish! Bob bore Sul edrychaf allan, a gweld wynebau sydd mor annwyl i ni. Gwelaf bob un yno wedi'i wneud ar lun a delw Duw; pob un wedi'i garu'n ddiddiwedd gan y Crist a fu farw



drostynt; pob un â stori unigryw; a phob un yn wyrth. Daw pob UN â chymaint o lawenydd i mi.

Dywedodd Paul wrth y Thesalonïaid: 'Wedi'r cwbl, chi sy'n rhoi gobaith i ni! Chi sy'n ein gwneud ni mor hapus! Chi ydy'r goron fyddwn ni mor falch ohoni pan safwn ni o flaen ein Harglwydd Iesu ar ôl iddo ddod yn ôl! Ie, chi! Chi ydy'n dilêit ni! Dŷn ni mor falch ohonoch chi!' (1 Thesalonïaid 2:19–20)

Fy nghoron, meddai Paul, yw cael gweld Duw ar waith ynoch chi – a dwi'n gwybod sut mae'n teimlo. Pobl Capel Craig, pobl Blaenau – amherffaith fel yr ydym ni i gyd. Nhw yw fy llawenydd mwyaf.

Wna i byth anghofio'r teimlad o edrych allan a rhyfeddu wrth weld pobl yn cymysgu o gwmpas y byrddau, a naws teulu yn ein plith, pan gynhalion ni ein Cinio Craig cyntaf. Cyn chwilio am sêl i ymuno yn y wledd, cymerais eiliad i anadlu a gweddïo gweddi o ddiolch i Dduw. Dyma'n union beth wnaethon ni weddio amdano bum mlynedd yn ôl wrth gyrraedd y gogledd.

A dyma ni bellach, yn rhannu'r bwrdd ar foreau Sul gyda phobl mor annwyl a gwerthfawr yn ein golwg ni — ond sy'n gymaint mwy gwerthfawr yng ngolwg Duw.

## 2. Rydym wedi dod yn lle i bawb

Yr ail beth sy'n llonni fy nghalon yw ein bod wedi dod yn lle i bawb.



Yn ddiweddar rydym wedi symud o gyfarfod yn y Ganolfan Gymdeithasol a bellach rydym yn yr Aelwyd, hen gapel a drodd yn adeilad i ieuencid y fro dan berchnogaeth yr Urdd ond sydd bellach wedi'i adnewyddu gan Antur Stiniog. Dwi'n caru'r Aelwyd am sawl rheswm. Un ohonynt yw ei fod yn arfer bod yn adeilad Byddin yr Iachawdwriaeth.

Heb fynd i mewn i'r hanes ormod, tarddodd y fyddin o weithgarwch William a Catherine Booth, a adawodd bulpudau capeli traddodiadol eu dydd i fynd â gair Duw i bobl yn uniongyrchol – pobl ar gyrion gymdeithas, y bobl fwyaf anghenus, y bobl oedd yn cael eu gwrthod gan yr eglwys. 'Soup, soap and salvation' oedd y weledigaeth, gweld eneidiau a chymdeithas yn cael eu hachub a'u trawsffurfio.

A dyma mae Capel Craig amdano: gweld cyfiawnder a chenhadaeth law yn llaw. Dyhead Duw yw i bawb gael eu hachub, gweld cyfiawnder – tegwch – fel y moroedd yn llifo i lawr pob dyffryn a thref.

Ac felly, mae hynny'n golygu ein bod ni'n croesawu pawb. Dyna yw calon ein Tad nefol: y mwyaf o lanast sydd, y cryfaf y mae'n ein cofleidio.



### 3. Mae'r cyfan am Iesu

#### A'r trydydd peth yw fod y cyfan am Iesu.

Pan fedyddiwyd Tom yn ddiweddar, rhannodd yn ei dystiolaeth am y ffordd yr oedd alcohol wedi dinistrio'i fywyd. Roedd y cylch o ddibyniaeth yn ddiwedd. Byddai'n goryfed ac yn ei gael ei hun i drwbl, yn addo iddo'i hun ac i'w wraig Jez mai dyna fyddai'r diwedd. Ond ar ôl mis da

o fod yn sobor, byddai'r cylch yn ailgychwyn nes yr ergyd nesaf. A hyd yn oed pan drawodd y gwaelod, pan gafodd ei arestio ac, yn y pen draw, ei garcharu am ei drosedd, doedd o'n dal ddim yn gallu torri'r cylch yma o ddibyniaeth.

Nes daeth Iesu i'w fywyd. Ers y Sul cyntaf i Tom a'i deulu fynychu Capel Craig, 15 mis yn ôl, mae wedi bod yn sobor. A disgrifiodd Tom yn ei dystiolaeth fod yr awydd i yfed wedi diflannu'n llwyr. Yr unig eglurhad all roi dros hyn yw fod Iesu wedi ei osod yn rhydd.

Does dim grym all gymharu, a does 'run enw all achub ond enw Iesu. Ac felly, dyna pam o'r dechrau a hyd y diwedd y byddwn yn gwneud Iesu Grist yn weledigaeth a chalon y gwaith. Achos, yn y diwedd, Ef yn unig all achub, Ef yn unig all ein codi ni o'r bedd, Ef yn unig all ein rhyddhau, yn rhydd go iawn.

#### Felly, ga' i eich gwahodd i weddio efo ni?

Rydym yn rhyddhau llythyr gweddi bob mis i ddiweddarar pobl am y gwaith. Plis, rhwch neges i mi ar [jos@craigblaenau.com](mailto:jos@craigblaenau.com) i mi gael eich ychwanegu at y rhestr.

Gweddïwch dros y ddwy flynedd nesa.

Gweddïwch y byddwn yn parhau i fod yn un teulu ffydd sydd yn aros efo'n gilydd, yn bodoli i bawb, a'r cwbl am Iesu.

## Cymdeithasfa'r Gogledd yn y Bala – Dydd Mawrth, 13 Hydref

Tro henaduriaeth Conwy Dyfrdwy fydd croesawu'r Sasiwn olaf yn y Gogledd ar ei ffurf bresennol, a hynny i Gapel Tegid a Llanfor, y Bala. Gallwn ddweud mai priodol yw hynny wrth inni basio heibio delw Thomas Charles yn estyn ei Feibl 'i bawb o bobl y byd', a chofio bod a wnelo cymaint o hanes ein dechreuadau a'n datblygiad fel enwad efo'r Bala. I'r Bala, i Sasiwn fawr y gwanwyn, y byddai Ann Griffiths yn mwynhau dod; yma y cerddodd Mari Jones i geisio Beibl; ac yma y bu'r ordeinio cyntaf ar weinidogion y Cyfundeb yn 1811. Yma yn y Bala y sefydlodd Lewis Edwards goleg i hyfforddi gweinidogion ac yma, y trigain mlynedd diwethaf, y bu mentro i gyrraedd a meithrin ffydd cenedlaethau newydd yn ein canolfan plant ac ieuencid.


Byddwn yn cofio mai yno gerllaw, yn y Fron Heulog, y cafodd y Weithred Gyfansoddiadol fu'n sail gyfreithiol i'n Cyfundeb ei llunio yn 1826, cyn cael ein harwain at fwrdd y cymun gan Eric Greene, un o gyn-fugeiliaid yr eglwys. Yn dilyn bore o adrodd ac o drafod dan lywyddiaeth Marian Lloyd Jones, y Rhos, bydd yn braf cael cymdeithas ein gilydd dros y byrddau. Yn ystod y dydd bydd yn dda hefyd inni gael rhannu am lawer o'r hyn sy'n ein blino yn ogystal â'n herio, yn y flwyddyn hon pan gofiwn ddau gan mlynedd ers i'r Hen Gorff gael ei gorffori.

Bydd y cyfarfodydd yn dechrau i'r cynrychiolwyr am 10:30yb ar 13 Hydref, a chynhelir cyfarfod cyhoeddus yn y prynhawn am 2 o'r gloch, gyda chroeso i bawb i hwnnw.

H. P.-Davies (Ysgrifennydd)

# Pigion rhifyn Hydref 2026 o'r Traethodydd

**Williams Pantycelyn, Richard Price, Kate Roberts, R. Williams Parry a C. H. Dodd – rhai o gymeriadau rhifyn Hydref 2026 o'r Traethodydd**



Pyrth hardd Eglwys Sant Silyn, Wrecsam, sydd ar glawr rhifyn diweddaraf y *Traethodydd*, a'r llun yn cysylltu â phrif erthygl y rhifyn, sef ymdriniaeth afaelgar Eryl Wynn Davies â bywyd a chyfraniad yr ysgolhaig beiblaidd C. H. Dodd.

Eri lawer gyfeirio ato fel diwinydd Seisnig, Cymro oedd Dodd, wedi'i eni a'i fagu yn nhref Wrecsam (fel yr oedd bryd hynny) ac yn hynod falch o'i dras. Cawn ddarlun cryno ohono, o'i gefndir yng nghapel yr Annibynwyr Saesneg ym Mhen-y-bryn, ei addysg yn Rhydychen, yn y Clasuron yn gyntaf ac yna mewn Diwinyddiaeth, ei flynyddoedd cynnar fel gweinidog Annibynnol yn Warwick, ei benodi i staff Coleg Mansfield, Rhydychen, ac yna ei ddyrchafu i Gadair y Testament Newydd ym Mhrifysgol Manceinion, ac wedyn yn Athro Diwinyddiaeth yng Nghaergrawnt.

Sonnir am ei gyfraniad i'n dealltwriaeth o'r Testament Newydd, o ddamhegion yr efengylau, y pregethu apostolaidd yn Llyfr yr Actau, syniadaeth gyfoethog yr Apostol Paul, hyd at ei weithiau mawr ar Efengyl Ioan. Cawn wybod hefyd am ei gyfraniad fel cyfarwyddwr y *New English Bible* a natur ei ddealltwriaeth o awdurdod yr Ysgrythur.

Traddodwyd y ddarlith sy'n sail i'r ysgrif ar faes Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025, ac mae'n cloi trwy gyfeirio at Gymreictod Dodd, a'i wybodaeth o'r Gymraeg yn taflu goleuni ar rai o eiriau ac ymadroddion y testun

beiblaidd. Bydd darllenwyr *Cenn@d* yn cael blas, rwy'n siŵr, ar yr ysgrif ddiddorol hon.

Dau o lenorion mawr yr ugeinfed ganrif, sef y nofelwraig Kate Roberts ac R. Williams Parry, 'Bardd yr Haf', yw themâu'r ddwy ysgrif nesaf. Yn y gyntaf ohonynt mae Arwel Vittle a Gwen Angharad Gruffudd yn cyflwyno ail ran eu hysgrif ar ymwneud Kate Roberts â Phlaid Cymru. Bu hi'n aelod o'r Blaid Genedlaethol o'i dyddiau cynnar, a hynny am resymau diwylliannol yn fwy na rhai gwleidyddol fel y cyfryw. Stormus oedd ei pherthynas â hi, yn neilltuol o'r 1960au ymlaen, ond cadwodd yn driw iddi trwy'r cyfan.

Yn yr ysgrif ganlynol mae Rosie Dymond yn trafod yr heriau i drosi barddoniaeth Williams Parry i'r Saesneg, yn un peth er mwyn rhannu cyfoeth ein diwylliant â'r di-Gymraeg. A hithau wedi dod at yr iaith fel oedolyn, mae'n hynod ymwybodol o anawsterau pob cyfieithu. Ond mae'n werth trosi gwaith Williams Parry, meddai, am fod ei weledigaeth ynghylch natur yn medru siarad yn rymus â'n hofnau ecolegol cyfoes. Gwych o beth yw medru cynnwys y ddwy erthygl gyfoethog yma.

Yn ei ysgrif ef mae Gwynn Matthews yn cymharu ac yn gwrthgyferbynnu dau Gymro mawr o'r ddeunawfed ganrif, sef yr athronydd y Dr Richard Price, a chymeriad llawer mwy cyfarwydd i'r rhan fwyaf ohonom, sef Williams Pantycelyn. Bu'r ddau ohonynt yn weinidogion, roedd y ddau'n hanu o siroedd y de, Morgannwg yn achos Price a Sir Gâr yn achos Williams, a'r ddau wedi'u haddysgu yn Academi Ymneilltuol Llwyn-llwyd. Ond yno mae'r tebygrwydd yn darfod. Ariad o ran cred oedd Price, yn gwadu cyflawn dduwdod Crist, a fu'n byw yn Llundain gan gyfrannu fel athronydd at waddol diwylliant Lloegr, tra mai Methodist unionged oedd Williams, yn emynydd ac yn awdur rhyddiaith, a arhosodd yng Nghymru gan adael ei farc ar y diwylliant Cymraeg. Cynnyrch Aroleuo'r ddeunawfed ganrif oedd y naill fel y llall, ond dwy agwedd wahanol o'r mudiad eang hwnnw. Gwelir y ddwy agwedd yn glir yn yr ysgrif hon, sy'n ein hatgoffa eto o'r amrywiaeth sy'n rhan o'n gwaddol deallusol.

Ac i gloi, y gwyddonydd y Dr Hefin Jones, yntau'n aelod o Fwrdd Golygyddol Y *Traethodydd*, sy'n tafoli cyfrol ddiweddar

Ffion Mair Jones ar y polymath hwnnw Thomas Pennant, yntau hefyd yn un o wŷr y ddeunawfed ganrif. Rhwng popeth, felly, dyma rifyn cyfoethog arall o gylchgrawn llenyddol hynaf Cymru.

Mewn cyfarfod pwysig o dan lywyddiaeth yr Archdderwydd Mererid ar faes Eisteddfod y Garreg Las a oedd yn cynnwys cyfraniad gan y newyddiadurwr Dylan Iorwerth a chrynhoad hanesyddol gan y Dr Eryn White, cafwyd ymgais i godi proffil Y *Traethodydd* a denu cenhedlaeth newydd o ddarlennwyr. Yn ysbryd y cyfarfod hwnnw, anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* nid yn unig i ddarllen Y *Traethodydd* a'i hyrwyddo ymhlith eu cydnabod, ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan [www.ytraethodydd.cymru](http://www.ytraethodydd.cymru). Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan ([d.d.morgan@pcdds.ac.uk](mailto:d.d.morgan@pcdds.ac.uk)), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Rhian Melhuish ([rhian.melhuish@ebcpcw.cymru](mailto:rhian.melhuish@ebcpcw.cymru)). Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

## Y COLEG GWYN

COLEG Y BEDYDDWYR, BANGOR



### OEDFA I DDIOLCH AM WASANAETH Y COLEG YM MANGOR

Sefydlwyd Coleg Bedyddwyr Gogledd Cymru yn Llangollen yn 1862 cyn symud i Fangor yn 1892. O ddiwedd Medi eleni, ymunodd yn swyddogol â Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd, gan greu un coleg ar gyfer hyfforddi gweinidogion Bedyddiedig yng Nghymru.

Croesewir cyfeillion y Coleg, ei gynfyfyrwyr ac eraill a elwodd o'i wasanaeth ar hyd y blynyddoedd, i ymuno â ni ar gyfer oedfa dathlu.


Fe'i cynhelir am **2 o'r gloch, prynhawn Gwener, 16 Hydref 2026**, yng Nghapel Emaus, Ffordd Garth, Bangor, LL57 2RL

*Bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn*

**DEWCH YNGHYD I DDIOLCH**

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

## Maes Llafur i oedolion 2025/26



### Codi'r Llen 38

## Ymson y Sunamees

Hoffech chi gael gwybod beth ddigwyddodd? Felly, bydd yn rhaid imi ddechrau yn y dechrau, gyda'r stafell. Addurnais y lle bach clyd, lan lofft, ar gyfer y gŵr sanctaidd. Byddai'n dod heibio o dro i dro am seibiant, yn rhoi ei ben i lawr ar y gwely, neu'n eistedd ar y gadair wrth y gannwyll. Ychydig a wyddwn yr adeg honno y byddai'r fangre'n gyrchfan gras.

Mae rhai ystafelloedd yn cario atgofion. Gofynnwch i unrhyw riant ac fe fyddan nhw'n deall am y llofft lle bu'r plentyn yn cysgu, yn chwarae, yn breuddwydio. Mae stafelloedd mewn ysbytai yn ogystal sy'n cadw cyfrinachau: y geiriau a ddywedwyd wrth erchwyn gwely, y dagrau a lifodd yn y man aros, y gwae rhwng y muriau a greithiodd galon. Yn y stafelloedd hynny mae gobaith ac anobaith yn parhau i atseinio rhwng y muriau.

Fe fûm innau'n dyheu yn hir am blentyn. Roedd fy ngŵr wedi heneiddio, yn ei gorff a'i feddwl, a minnau wedi gorfod derbyn hynny. Dywedwyd wrthyf droeon fy mod yn dda yn peidio â digio. Byddwn innau'n ymateb nad yw dig yn llafar ei lef bob amser.

Un diwrnod, gofynnodd Eliseus imi am fy nyheadau. Dywedais yn ôl f'arfer nad oedd arnaf eisiau dim, gan mai ofer pob gobeithio. Dyna pryd yr addawodd imi wyrth: mab. Allwch chi ddychmygu'r effaith gafodd y gair hwnnw arnaf? Ro'n i'n methu credu. Do'n i ddim eisiau cosi'r graith ac yn sicr do'n i ddim eisiau edrych i fyw llygaid siomiant eto.

Ond, ymhen hir a hwyr, digwyddodd y wyrth! Llanwyd ein cartref â

chwerthin ein babi bach; llanwyd fy nyfodol innau'n ogystal. Ymhen dim daeth blynnyddoedd yr arddegau ar ein gwarthaf a ninnau'n gorfod dechrau ystyried popeth a ddeuai gyda'r aeddfedrwydd hwnnw – diwrnod priodas ein mab, dydd geni ei blant yntau. Dyna beth fyddai hapusrwydd yn wir.

Efallai mai fy mab oedd achos y gobeithio gormodol oedd ynof. Meddyliais y byddai fy mab yn byw am byth, ond daeth haint i aflonyddu arno. Arhosodd fy ngŵr yn y caeau, ond cariwyd fy mab ataf gan y gwas. Cofleidiais ef. Erbyn canol dydd yr oedd wedi oeri. Bu'n rhaid imi benderfynu gweithredu'n gyflym. Peidiodd pob synnwyr mewn eiliad. Pylodd y pelydrau oedd yn ffrydio drwy'r ffenest. Oerais innau. Rhoddais fy mab ar y gwely. Anwybyddais gerydd fy ngŵr a chychwyn ar y daith i fynydd Carmel i ofyn am help y proffwyd. Ar fy ffordd gwelais ei was, a gofynnodd hwnnw imi a oedd pawb yn iawn. Atebais yn gadarnhaol – dwn i ddim pam, wir – a dweud, 'lawn'. Sawl un ohonom sydd wedi dweud ein bod yn iawn, a ninnau'n bell o hynny? Weithiau, gŵyr ein hisymwybod fod y gwir yn rhy fawr, neu'n rhy anodd, i'w rannu.

Llwyddais i berswadio Eliseus fod rheidrwydd arno i ddod gyda mi, a hynny'n gyflym. Wedi inni gyrraedd, gadewais ef gyda fy mab. Y peth mwyaf

anodd oedd gorfod ymlonyddu, ceisio bod yn amyneddgar er fy mod ar ben fy nhennyn. Yna clywais disian, seithgwaith! Sylwedolais yr eiliad honno pa mor ffodus yr oeddwn o'i gymharu â chynifer o famau eraill. Nid pawb sy'n profi gwyrth yr ail gyfle.

### Holi

- Beth sydd gan y stori hon i'w ddweud wrthym am golled, boed hynny'n golli plentyn neu berson, perthynas, profiad, neu gyfnod o fywyd?
- Yn hytrach na derbyn terfynoldeb marwolaeth ei mab, fe aeth y Sunamees â'i hofn at y proffwyd Eliseus. Oes neges ganddi i ni parthed mynd â materion anodd gerbron Duw?
- Gan gofio y gall iachâd ddod mewn amrywiol ffyrdd, a hefyd nad yw galar yn cael ei ddileu gan wyrth yn aml, ydych chi'n credu geiriau Duw, 'Fi ydy'r Arglwydd sy'n eich iacháu chi'? (Exodus 15:26)
- Drwy'r Sunamees cawn ein hatgoffa o angen mawr dynolryw am fywyd, gobaith, cariad, sicrwydd, adferiad, ac iachâd. Oes modd inni fel Cristnogion ddarganfod ffyrdd o ddangos empathi tuag at y rhai sy'n wynebu poen a cholled?

### Gweddï

Arglwydd, tyrd i iacháu ein calonnau briwiedig. Cryfha'r rhai sy'n ceisio ymdopi â chario baich colled. Gwna ni'n ddewr pan nad yw'r wyrth yn ymddangos fel yr ydym yn ei ddymuno. Cysura ni ymhob ansicrwydd. Os yw ein gweddïau'n aros yn eu hunfan, heb eu hateb, rho inni ddealltwriaeth newydd. Cymorth ni. Amen.

Siân Meinir



*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 11 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Gwyn Elfyn, Pontyberem

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 11 Hydref, am 12:00yp**

Gwasanaeth diolchgarwch o dan arweiniad Christopher Prew, Porthmadog

### Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 11 Hydref 2026

#### S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

**Sul, 11 Hydref**

Afon Mawddach: Bydd Lowri Morgan yn dilyn taith o ffydd, yn darganfod straeon ac yn profi'r llonyddwch wrth grwydro glannau afon Mawddach. Daw'r canu o Gapel Bowydd, Blaenau Ffestiniog, dan arweiniad Trystan Lewis.

# Nid yw Undod yn Gofyn am Lai o Wirionedd

*Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru*

*Yn ôl yn rhifyn 275 o Cenn@d (3 Mehefin 2026) (gweler <https://www.cennad.cymru/wp-content/uploads/2026/06/Cennad-275-1.pdf>) cyhoeddwyd y gyntaf o gyfres o erthyglau gan Dr Cynan Llwyd yn trafod beth yw hanfodion eciwmeniaeth yn 2026. Dyma'r ail yn y gyfres, lle mae'n dadlau nad gelyn athrawiaeth yw eciwmeniaeth. Gall fod yn ffordd ddisgybledig o gymryd athrawiaeth o ddifrif.*

I lawer o efengylwyr, mae'r gair eciwmeniaeth yn codi amheuan ar unwaith.

Gall swnio fel rhywbeth sy'n perthyn i fydd arall: pwyllgorau eglwysig, datganiadau cwrtais, athrawiaeth wedi'i gwanhau, a rhyw fath o undod amwys sy'n gofyn i bawb beidio â phoeni gormod am beth sy'n wir. I Gristnogion sydd wedi'u ffurfio gan yr Ysgrhythur, gan bregethu, gan dröedigaeth, a chan yr alwad i 'ymdrechu dros y ffydd a roddwyd unwaith ac am byth i'r saint', mae'r amheuaeth honno'n ddealladwy.

Ac mae efengylwyr yn iawn i boeni am wirionedd. Dylem boeni am wirionedd. Os yw'r eglwys yn colli'r efengyl, does ganddi fawr ddim ar ôl i'w gynnig i'r byd ond iaith grefyddol, cyngor moesol, ac atgof am sefydliad a fu. Nid addurn ar ymylon y ffydd yw athrawiaeth. Nid hobi i bobl sy'n hoff o ddiwinyddiaeth mohoni. Athrawiaeth yw'r ffordd y mae'r eglwys yn rhoi geiriau i'r Duw sydd wedi siarad, i'r Crist sydd wedi ein hachub, i'r Ysbryd sy'n rhoi bywyd, ac i'r gobaith yr ydym wedi ein galw iddo.

Felly, mae'n werth dweud hyn yn glir: nid eciwmeniaeth ffyddlon yw eciwmeniaeth sy'n gofyn i Gristnogion esgus nad yw athrawiaeth yn bwysig.

Ond dyna hefyd pam na ddylai efengylwyr ddiystyru eciwmeniaeth yn rhy gyflym.

Nid yw eciwmeniaeth go iawn yn gofyn i eglwysi osgoi'r gwirionedd. Mae'n gofyn iddynt geisio'r gwir gyda'i gilydd, mewn cariad. Nid yw'n ein galw i feddalu ein hargyhoeddiadau, cymylu gwahaniaethau, nac esgus bod pob anghytundeb yn ddibwys. Yn hytrach, mae'n ein gwahodd i ofyn a yw ein rhaniadau bob amser mor ffyddlon, mor angenrheidiol ac mor efengylaidd ag yr ydym yn tybio. A ydym, ar brydiau, wedi cymysgu dewrder â bod yn ymosodol,



egglurder â gwawdlunio, ac argyhoeddiad ag ynysu ein hunain?

Nid yw undod yn gofyn am lai o wirionedd. Mae'n gofyn am fwy o gariad wrth inni geisio'r gwir.

Mae'r gwahaniaeth hwnnw'n bwysig.

Mae math o heddwch ffug sy'n cael ei greu drwy osgoi'r cwestiynau anodd. Gall eglwysi gynnal cyfeillgarwch arwynebol drwy gytuno'n dawl i beidio byth â sôn am fedydd, y Cymun, llywodraeth yr eglwys, awdurdod, sancteiddrwydd, doniau'r Ysbryd, neu natur iachawdwriaeth. Ond nid undod yw distawrwydd. Yn aml, dim ond cwrteisi dros dro ydyw.

Yn hwyr neu'n hwyrach, daw'r gwahaniaethau go iawn i'r wyneb. Pan ddigwydd hynny, nid y cwestiwn yw a fydd Cristnogion yn anghytuno. Wrth gwrs y byddwn. Y cwestiwn yw sut y byddwn yn anghytuno, ac a fydd ein ffordd o anghytuno yn dangos ffrwyth yr Ysbryd neu weithredoedd y cnawd.

Nid yw'r Testament Newydd yn cynnig darlun o eglwys heb wirionedd na heb wrthdaro. Mae Paul yn ceryddu athrawiaeth ffug. Mae Ioan yn rhybuddio rhag twyllwyr. Mae Jwdas yn annog Cristnogion i ymdrechu dros y ffydd. Mae Iesu ei hun yn siarad â miniogrwydd pan fo gwirionedd Duw yn cael ei wydroi. Nid oes achos Beiblaidd dros undod sy'n trin athrawiaeth fel rhywbeth amherthnasol neu dafladwy.

Ac eto, mae'r un Testament Newydd yn ein galw at ostyngeddrwydd, amynedd, addfwynder, goddefgarwch a chariad. Mae'r un Paul ag sy'n amddiffyn yr efengyl mor gadarn hefyd yn erfyn ar Gristnogion i 'gadw undod yr Ysbryd

yng nghwlm tangnefedd'. Mae'r ffydd apostolaidd sy'n tynnu ffiniau hefyd yn mynnu ein bod yn anrhydeddu ein gilydd, yn goddef ein gilydd, ac yn gwrthod y balchder sy'n troi pob anghytundeb yn rheswm dros ddirmyg.

Dyma lle mae angen dychymyg efengylaidd mwy aeddfed arnom.

Nid yw pob athrawiaeth o'r un pwys.

Nid yw hynny'n golygu bod rhai gwirioneddau'n amherthnasol. Mae'n golygu bod y traddodiad Cristnogol wedi cydnabod ers canrifoedd fod rhai athrawiaethau'n sefyll wrth wraidd y ffydd mewn ffordd nad yw eraill. Mae'r Drindod, yr ymgawdoliad, marwolaeth ac atgyfodiad Crist, iachawdwriaeth drwy ras, awdurdod yr Ysgrhythur, yr alwad i sancteiddrwydd, a gobaith dychweliad Crist yn rhan o galon cyffes Gristnogol. Os collwn y rhain, nid dim ond un agwedd ar Gristnogaeth sy'n newid; mae natur y ffydd ei hun dan sylw.

Mae materion eraill yn dal i fod yn ddifrifol, ond maent wedi rhannu Cristnogion drwy'r canrifoedd sydd, serch hynny, yn cyffesu'r un Arglwydd. Mae bedydd, trefn eglwysig, natur gweinidogaeth ordeiniedig, presenoldeb Crist yn y Cymun, doniau ysbrydol, patrymau addoli, a chwestiynau am awdurdod eglwysig yn faterion pwysig. Maent yn siapio bywyd eglwysig'n ddwfn. Ond ni ddylid trin pob anghytundeb yn eu cylch fel pe bai'n gosod rhywun y tu allan i deulu'r ffydd.

Ac yna mae materion eraill eto: barn ymarferol, hoffterau diwylliannol, arddulliau addoli, arferion a etifeddwyr, a thraddodiadau lleol yr ydym weithiau'n eu dyrchafu i lefel athrawiaeth am eu bod yn gyfarwydd ac yn annwyl inni.

Un o roddion cyfarfod eciwmenaidd gonest yw ei fod yn ein gorfodi i ofyn cwestiynau gwell.

Ai anghytundeb am yr efengyl ei hun yw hyn? Ai mater difrifol ond eilaidd ydyw? Neu ai rhywbeth sy'n perthyn i'n traddodiad ein hunain yr ydym wedi'i ddyrchafu'n egwyddor gyffredinol?

A ydw i wir wedi deall beth mae'r eglwys arall yn ei gredu, neu ydw i wedi etifeddu gwawdlun ohoni?

A ydw i'n amddiffyn y gwir, neu'n amddiffyn fy llwyth?

Mae gwawdlunio yn un o elynion mawr undod Cristnogol. Mae hefyd yn un o elynion mawr gwirionedd Cristnogol.

Mae'n hawdd trechu fersiwn o draddodiad arall na fyddai neb meddylgar o'r traddodiad hwnnw'n ei adnabod. Mae Catholigion yn 'addoli Mair'. 'Dim ond emosiwn sy'n bwysig' i'r Pentecostiaid. Nid yw Anglicaniaid 'yn credu dim byd'. Does gan Fedyddwyr 'ddim hanes'. Nid yw Cristnogion Diwygiedig 'yn credu mewn cenhadaeth'. Mae'r Uniongredwyr 'yn ymwneud â defodau yn unig'. 'Unigolyddion bas' yw efengylwyr.

Gall y math hwn o iaith godi gŵen ymhlith ein pobl ein hunain, ond nid yw'n ein helpu i garu corff Crist. Yn fwy na hynny, yn aml iawn nid yw'n wir. Mae anghytuno'n onest yn fwy ffyddlon na chamgyfleu rhywun yn ddiog.

Mae byd o wahaniaeth rhwng dweud, 'Rwy'n deall beth rydych chi'n ei gredu, ond dyma pam rwy'n anghytuno â chi,' a dweud, 'Does dim angen imi eich deall chi oherwydd rwyf eisoes yn gwybod bod pobl fel chi yn anghywir.' Gall y cyntaf fod yn arwydd o ddifrifoldeb diwinyddol. Yn rhy aml, balchder yn gwisgo mantell athrawiaethol yw'r ail.

Dyma pam mae credoau hanesyddol yr eglwys mor werthfawr. Nid yw Credo'r Apostolion na Chredo Nicea yn ateb pob cwestiwn. Nid ydynt yn dileu gwahaniaethau enwadol, nac yn datrys pob anghydfod diwinyddol. Ond maent yn rhoi canolbwynt cyffredin inni. Maent yn ein hatgoffa, cyn ein bod yn Brotestaniaid, yn Gatholigion, yn Uniongredwyr, yn Anglicaniaid, yn Fedyddwyr, yn Fethodistiaid, yn Benteocostiaid neu'n Bresbyteriaid, rydym yn Gristnogion sy'n cyffesu'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân. Rydym yn cyffesu'r ymgawdoliad, y croeshoeliad, yr atgyfodiad, yr esgyniad, y Farn, maddeuant pechodau, atgyfodiad y corff, a'r bywyd tragwyddol.

Nid 'y lefel isaf bosibl' yw'r canolbwynt hwn. Nid yw'n golygu ein bod yn cytuno i warchod y lleiaf posibl. Yn hytrach, mae'n ein helpu i weld yr hyn sydd wrth galon y ffydd, fel y gallwn roi ein hanghytundebau eraill yn eu cyd-destun priodol.

Mae angen inni gael synnwyr o gymesuredd. Hebddo, gall Cristnogion ddechrau trin pob dadl fel argyfwng a phob gwahaniaeth fel brad. Rydym yn byw mewn cyflwr parhaus o amheuaeth. Rydym yn hyfforddi ein hunain i weld bygythiadau yn gynt nag yr ydym yn gweld rhoddion. Rydym yn dod yn arbenigwyr ar fod yn wyladwrs o'n gilydd. Ac yn y pen draw, gall hyd yn oed ein hymdrech i amddiffyn y gwir ddechrau ein hanffurfio.

Nid difaterwch yw'r dewis arall. Yr hyn sydd ei angen yw argyhoeddiad sydd hefyd yn gwrtais ac yn hael.

Nid bod yn 'neis' yw hyn. Gall bod yn neis olygu osgoi'r gwir er mwyn cadw pawb yn gyfforddus. Mae argyhoeddiad caredig yn dweud y gwir, ond yn gwneud hynny mewn cariad. Mae'n gwrando'n ofalus. Mae'n gwrthod ergydion rhad. Mae'n gwahaniaethu rhwng camgymeriad a heresi, rhwng dryswch a gwrthryfel, rhwng anghytundeb ac ewyllys drwg. Mae'n siarad yn glir, ond nid yn ddirmygus.

Nid techneg ar gyfer dadl yw hyn. Disgyblaeth ysbrydol ydyw. Er mwyn byw fel hyn, rhaid inni gredu nad gwrthwynebydd i'w drechu yn unig yw'r person sydd gyferbyn â ni, ond cymydog i'w garu. Ac os yw'r person hwnnw'n Gristion, mae'n fwy na chymydog. Mae'n frawd neu'n chwaer y bu Crist farw drosto neu drosti.

Nid yw hynny'n golygu bod pob barn sydd ganddynt yn gywir. Ond mae'n golygu na allaf eu trin â dirmyg.

Defnyddir yr ymadrodd 'uniongrededd graslon' weithiau, ac ar ei orau mae'n disgrifio rhywbeth Beiblaidd, dwfn: ymrwymiad i'r gwir sy'n cael ei fyw yn null Crist.

Mae uniongrededd heb ras yn mynd yn galed, yn frau ac yn hunan-amddiffynnol. Mae gras heb uniongrededd yn mynd yn sentimental ac yn ddiwreiddyn. Mae angen y ddau ar yr eglwys. Mae angen ffydd sydd â chryfder a chynhesrwydd; argyhoeddiad a gostyngeddwrwydd; eglurder a dagrau.

Gall eciwmeniaeth, o'i deall yn iawn, ein hyfforddi yn y math hwn o ffydd. Mae'n ein gwahodd i eistedd gyda Christnogion

y mae eu greddfau a'u traddodiadau'n wahanol i'n rhai ni a gofyn: Beth maen nhw'n ei weld nad ydw i wedi'i weld? Pa wirionedd y maen nhw'n ceisio'i warchod, hyd yn oed os ydw i'n credu eu bod wedi mynd yn rhy bell? Beth am fy nhraddodiad i sy'n dod yn fwy amlwg wrth imi wrando ar eu traddodiad nhw? Ble ydw i wedi cymysgu fy hoffterau personol ag egwyddorion Beiblaidd? Ble mae angen imi edifarhau?

Nid yw hynny'n golygu bod pob sgwrs yn gorffen mewn cytundeb. Weithiau, canlyniad deialog onest yw ein bod yn deall yn gliriach pam ein bod yn parhau i anghytuno. Ond gall hyd yn oed hynny fod yn rhodd.

Mae yna fath o anghytundeb sy'n puro. Mae'n chwalu gwawdluniau. Mae'n dyfnhau argyhoeddiad. Mae'n ein dysgu i siarad yn gywir. Mae'n ein hatgoffa nad yw'r gwir yn cael ei wasanaethu gan or-ddweud na chamgyfleu.

Nid oes angen undod ar yr eglwys sydd wedi'i adeiladu ar amwysedd. Mae angen undod sydd wedi'i adeiladu ar Grist, gwirionedd, gostyngeddwrwydd a chariad.

I efengylwyr, felly, nid yr her yw gofalu llai am athrawiaeth. Yr her yw gofalu am athrawiaeth mewn ffordd sy'n fwy tebyg i Grist. Caru'r gwir ddigon i'w geisio gydag eraill. Caru'r efengyl ddigon i'w gwahaniaethu oddi wrth ein greddfau llwythol. Caru'r eglwys ddigon i alaru dros raniadau diangen.

A charu ein cymdogion ddigon i ddangos iddynt dystiolaeth Gristnogol sydd wedi'i nodweddu nid gan gystadleuaeth ac amheuaeth, ond gan argyhoeddiad sanctaidd a chariad gweladwy.

Nid gelyn athrawiaeth yw eciwmeniaeth. Ar ei gorau, mae'n wrthodiad disgybledig i adael i athrawiaeth droi'n arf i falchder. Mae'n ffordd o ddweud bod gwirionedd yn rhy bwysig i'w geisio heb gariad, a bod cariad yn rhy bwysig i gael ei wahanu oddi wrth wirionedd.

Nid yw undod yn gofyn am lai o wirionedd. Mae'n gofyn am Gristnogion sy'n barod i geisio'r gwir gyda'i gilydd — yn amyneddgar, yn ddewr, yn ostyngedig, ac yng nghariad Crist.

**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:**

**Aled Davies:** [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

**Huw Powell-Davies:** [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru)

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

**Gwefan:** [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | **Facebook:** [CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | **X:** [@CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan **Eglwys Bresbyteraidd Cymru** ac **Undeb Bedyddwyr Cymru**.

*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **[www.panel.cymru](http://www.panel.cymru)**

**ar 01745 817584**

**neu 07957 510346**

yn ystod oriau swyddfa

neu **Thirtyone:eight** ar **0303 0031111**

am gyngor tu allan i oriau swyddfa.

